ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

# DECHRAU CAPLANIAETH (GOFAL IECHYD)

## Cwrs Ymsefydlu Caplaniaid sydd newydd eu Penodi



## Llawlyfr y Cwrs

Wedi'i ddiwygio Gorffennaf 2023

## RHAGYMADRODD

Y ddogfen hon yw eich cyflwyniad ffurfiol i'r cwrs ac mae'n darparu gwybodaeth graidd. I ategu'r ddogfen yma, mae yna:

1) Gwefan gyhoeddus Dechrau Caplaniaeth Athrofa Padarn Sant www.stpadarns.ac.uk/cy/DechrauCaplaniaeth
2) Deunyddiau ar lwyfan dysgu ar-lein Moodle.
3) Dylech gael eich manylion mewngofnodi Moodle wythnos neu ddwy cyn i'r cwrs ddechrau. Bydd angen ichi gael mynediad at y deunyddiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu trwy Moodle.

## I BARATOI

Er mwyn cael y budd mwyaf o'ch amser gyda ni, mae gennyn ni waith ichi ei wneud cyn ichi ddod. Dylai gymryd tua phedair awr i'w gwblhau. Bydd sesiynau penodol yn yr amserlen yn tynnu ar y gwaith hwn. I gael gwybod am y gwaith hwn, darllenwch yr adran 'Gwaith Paratoi' isod.

## ASESU

Does dim asesiad cwrs ffurfiol, ond rydym yn eich gwahodd i ysgrifennu dau aseiniad dewisol.

## CYSYLLTIADAU


*Gweinyddydd y Cwrs:*

Tina Franklin
Cydlynydd Ôl-raddedigion

02920 838 009

chaplaincycourses@stpadarns.ac.uk

*Cynorthwyydd y Cwrs*

Suzanne Robinson
Cynorthwyydd Tîm Gwasanaethau Cymorth

02920 838 075

*Arweinydd y Cwrs:*

Julian Raffay

Cyfarwyddwr Astudiaethau Caplaniaeth

julian.raffay@stpadarns.ac.uk


Llun y clawr blaen: Julian Raffay

## DISGRIFIAD O'R CWRS

Mae'r cwrs arloesol, cyffrous ac unigryw hwn yn canolbwyntio ar gaplaniaeth yn y GIG ond mae'n berthnasol i gaplaniaid iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn lleoliadau eraill. Mae'r cwrs wedi'i gydlunio gyda chaplaniaid gofal iechyd newydd a phrofiadol.

## NODAU'R CWRS

Nodau'r cwrs yw:

- rhoi mwy o eglurder a hyder ichi yn eich rôl
- eich ysbrydoli i sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o gaplaniaeth, diwinyddiaeth ymarferol, ac ymarfer myfyriol
- eich galluogi i gynnal effeithiolrwydd proffesiynol a chywirdeb personol
- cyfleu'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn aelod cynrychioliadol o grŵp ffydd penodol – yn gwasanaethu mewn sefydliad seciwlar, gan gofleidio pob ffydd a dim ffydd
- eich cefnogi a'ch meithrin wrth ddod yn ymarferydd sy'n ymwybodol o ymchwil.

## SUT MAE'R CWRS YN CAEL EI DDARPARU

Bydd y cwrs yn cael ei addysgu mewn un cyfnod preswyl drwy seminarau a grwpiau bach.[1] Mae'r cwrs yn ymestyn dros 5 diwrnod o 12.30pm ddydd Sadwrn tan 12.30pm ddydd Mercher.

## DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r cwrs, bydd aelodau ymroddgar:

### *Gwybodaeth o'r pwnc*

- yn deall y cyd-destun y mae caplaniaid y GIG yn gweithredu ynddo
- â gwybodaeth sylfaenol am ddamcaniaethau moesegol mawr a'u cymhwysiad.

---

[1] Os bydd cyfyngiadau pellach yn sgil Covid-19, gellir trosglwyddo'r cwrs ar-lein yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

***Sgiliau penodol y pwnc***

- yn gallu cymhwyso safbwyntiau damcaniaethol amrywiol at ymarfer
- yn dangos annibyniaeth meddwl wrth fyfyrio'n ddiwinyddol ar y berthynas rhwng 'bod' a 'gwneud' mewn gweinidogaeth/ymarfer cyhoeddus.[2]

***Sgiliau allweddol***

- yn hyderus wrth ddangos blaengarwch, hunan-gyfeiriad, ac annibyniaeth wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys
- yn ymarfer eu sgiliau dysgu i ddilyn datblygiad proffesiynol neu astudiaeth academaidd pellach.

## Y CYNNWYS TEBYGOL

Sylwch: Mae cynnwys y cwrs yn cael ei adolygu'n rheolaidd mewn ymateb i newidiadau mewn ymchwil, polisi ac arferion gofal iechyd. Mae adborth y cyfranogwyr hefyd yn sbarduno gwelliant parhaus. Gall y pynciau gynnwys:

- rôl neilltuol caplan yng nghyd-destun gofal iechyd
- natur sefydliadau gofal iechyd
- modelau myfyriol sy'n briodol i gaplaniaeth gofal iechyd
- modelau moesegol a sut i'w cymhwyso at gaplaniaeth gofal iechyd
- deall plwraliaeth
- materion iechyd a salwch.

Byddwn yn astudio'r uchod gan gyfeirio at arferion proffesiynol/galwedigaethol y myfyrwyr drwy gyfrwng myfyrio diwinyddol beirniadol, gan dynnu ar lenyddiaeth ac ysgolheictod hanesyddol a chyfoes.

## GWAITH PARATOI

Os hoffech weithio gyda chopïau printiedig o'r taflenni cyflwyno etc, argraffwch y rhain gartref a dewch â nhw gyda chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso ichi gysylltu â ni.

[2] Gall cyfranogwyr nad ydyn nhw'n aelodau o ffydd dduwganolog (neu o unrhyw ffydd) roi'r gair 'athroniaeth' yn lle 'diwinyddiaeth' lle bo'n berthnasol.

***Casglu gwybodaeth***

Darllenwch y darnau gwybodaeth a ganlyn, a'u cael nhw wrth law (yn electronig neu mewn print):

- ❑ eich disgrifiad swydd a'ch manyleb person – fyddwn ni ddim yn gofyn am weld y rhain
- ❑ datganiad cenhadaeth eich adran gaplaniaeth (neu ddatganiad cyfatebol o nodau ac amcanion yr adran)
- ❑ Polisi Caplaniaeth eich sefydliad (os oes un)
- ❑ *Canllawiau* yr UKBHC [neu gorff cyfatebol] (dewiswch un eich gwlad chi)
- ❑ *Healthcare Chaplaincy Bands and Duties Framework* yr UKBHC (2015)
- ❑ Swift, C. (2015) *NHS Chaplaincy Guidelines: Promoting Excellence in Pastoral, Spiritual & Religious Care*

I gael cyflwyniad syml i agweddau caplaniaeth, efallai yr hoffech chi ddarllen Threlfall-Holmes, M. a Newitt, M. (goln.) (2011) *Being a Chaplain*. Llundain: SCM.

**Dewch â'r adnoddau hyn gyda chi (yn electronig neu mewn print) i'r cwrs preswyl.**

***Ymarferion paratoi (dewisol)***

*Ymarfer myfyriol 1*

Ysgrifennwch ddarn byr (rhwng 300 a 500 o eiriau) yn ystyried eich profiad fel caplan. I ba raddau y mae'r weinidogaeth/ymarfer yma wedi effeithio arnoch chi fel person, ac i ba raddau ydych chi wedi dylanwadu ar weinidogaeth/ymarfer caplaniaeth yn eich cyd-destun gofal iechyd chi?

*Ymarfer myfyriol 2*

Ysgrifennwch ail ddarn byr (eto rhwng 300 a 500 o eiriau) yn cymharu'ch profiad chi â'r wybodaeth rydych chi wedi'i chasglu am eich swydd fel caplan. Oes yna fylchau a gwahaniaethau? Oedd yna bethau yn y Fframwaith neu'r Canllawiau sydd wedi'ch synnu ichi.

*Ymarfer myfyriol 3*

Yng ngoleuni ymarfer 2 uchod, anfonwch neges ebost (eto, o 300-500 o eiriau o hyd) at julian.raffay@stpadarns.ac.uk . Dylai hyn gynnwys yr elfennau a ganlyn:

a) rhestr fyr iawn o unrhyw radd(au) sydd gennych a'u pwnc/pynciau
b) gosodiad syml o'r hyn yr hoffech ei ddysgu dros gyfnod preswyl  Dechrau Caplaniaeth.

Os oes modd, rhowch yr ymadrodd 'Ymarfer myfyriol Dechrau Caplaniaeth' yn y llinell bwnc. Cyflwynwch yr eitemau hyn heb fod yn hwyrach nag wythnos cyn y cwrs preswyl.

Diben ymarfer 3 yw hoelio'ch sylw chi a'n galluogi ni i addasu'r rhaglen o amgylch anghenion a diddordebau'r cyfranogwyr.

## CEFNDIR MOESEG

Mae moeseg yn rhan bwysig o hyfforddiant yr wythnos. Rydym wedi profi amrywiaeth aruthrol ym mhrofiad a gwybodaeth y cyfranogwyr, o egwyddorion moeseg. Gan hynny, hoffem eich gwahodd i ddarllen o leiaf un o'r canlynol. Pan gewch chi'ch mynediad i Moodle, gallwch eu lawrlwytho am ddim.

Er ei bod hi yn fanteisiol ar y cyfan i ddarllen argraffiad diweddaraf llyfr, os ydych chi'n prynu, yn aml gallwch arbed mwy na hanner y pris trwy brynu argraffiad cynharach a/neu gopi ail-law.

Mae'r llyfrau isod wedi'u rhestru yn nhrefn eu cymhlethdod cynyddol. Felly, os nad ydych erioed wedi astudio moeseg, dewiswch Sandel. Os ydych chi wedi astudio moeseg ychydig yn ôl, ewch am Bauman. Os ydych chi'n hyderus yn eich gwybodaeth am foeseg, dewiswch Beauchamp a Childress.

Sandel, M. (2009). 'Doing the Right Thing', yn *Justice: What's the Right Thing to Do?* Llundain: Penguin, Pennod 1, tt. 3–30.

Bauman, Z., (1993). 'Moral Responsibilities, Ethical Rules', yn *Postmodern Ethics*. Rhydychen: Blackwell, Pennod 1, tt.16–36.

Beauchamp, T. L., a J. F. Childress. (2019). 'Nonmaleficence', yn *Principles of Biomedical Ethics*. Wythfed argraffiad. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen. Pennod 5, tt.155–202.

## GWELLA'N BARHAUS A CHYDLUNIO

Wrth gynnal Dechrau Caplaniaeth, rydyn ni wedi ymrwymo i welliant parhaus. Mae hyn yn golygu ein bod yn adolygu'r seminarau a'r dogfennau yn gyson. Peidiwch â synnu felly os oes rhywbeth yn ymddangos ychydig yn wahanol i'r hyn roeddech chi'n ei ddisgwyl. Cofiwch; rydym yn addo ymgynghori â chi cyn gwneud unrhyw newidiadau mawr!

Yn ychwanegol, rydyn ni i gyd yn ddysgwyr – cyfranogwyr, staff gweinyddol, staff lletygarwch a staff academaidd fel ei gilydd. Hoffem eich gwahodd i gydlunio'r profiad dysgu gorau posibl gyda ni ac ar gyfer y carfannau o fyfyrwyr sy'n dilyn. Gyda hyn mewn golwg, edrychwn ymlaen at gael eich adborth trwy gydol y cwrs preswyl, ac nid ar y diwedd yn unig.

Unwaith eto, os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso ichi gysylltu â ni.

## EIN RHAGLEN ASTUDIAETHAU CAPLANIAETH ÔL-RADDEDIG

Os yw Dechrau Caplaniaeth wedi bod yn ysbrydoliaeth ichi, beth am ystyried astudiaethau pellach gyda ni? Gallwch gofrestru yn rhan-amser ar gyfer Tystysgrif (blwyddyn), Diploma (dwy flynedd), neu Radd Meistr (tair blynedd). Mae nifer o fyfyrwyr wedi gwneud hyn.

Mae'r cwrs wedi'i ddilysu gan Brifysgol Durham, un o'r 24 o brifysgolion gorau'r byd sy'n ddwys o ran ymchwil ac sy'n aelodau o Grŵp Russell. Mae rhaglen Astudiaethau Caplaniaeth Padarn Sant yn ddatblygiad unigryw sy'n cefnogi caplaniaid mewn swyddi yn eu hymarfer a'u gweinidogaeth.

Bydd y rhaglen yn ehangu'ch meddwl a'ch ymwybyddiaeth o agweddau damcaniaethol ac ymarferol eich gwaith. Mae modiwl 'lleoliad' sylweddol sy'n cael ei wneud yng ngweithleoedd y myfyrwyr yn cysoni'n rhaglen ni â meini prawf achredu proffesiynol.

Nod rhaglen Athrofa Padarn Sant yw cynnig addysg ôl-raddedig mewn astudiaethau caplaniaeth mewn partneriaeth â'r cyrff proffesiynol perthnasol:

- ar ffurf datblygu proffesiynol parhaus ar lefel uwch i unigolion sy'n ymwneud â gwaith caplaniaeth
- i ymgeiswyr ar gyfer gweinidogaethau mewn caplaniaeth sydd eisoes wedi astudio diwinyddiaeth hyd at lefel gradd
- i unigolion sy'n dymuno dilyn astudiaethau caplaniaeth ar lefel ôl-raddedig.

Y meini prawf arferol i gael mynediad yw gradd 2:1 gyda dwy flynedd o brofiad o gaplaniaeth neu radd 2:2 gyda phrofiad proffesiynol sylweddol. Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf hyn, cysylltwch â ni i drafod yr opsiynau sydd ar gael ichi. Efallai y cewch eich gwahodd i ysgrifennu 2000 o eiriau ar y cwestiwn: 'Sut mae eich gweinidogaeth a/neu eich ymarfer proffesiynol wedi eich paratoi ar gyfer y cwrs hwn a sut bydd y cwrs yn cefnogi'ch gweinidogaeth/ymarfer ymhellach?' Yr un yw'r cyntaf o'r aseiniadau dewisol rydyn ni'n ei osod ar ddiwedd cyrsiau preswyl Dechrau Caplaniaeth.

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys ffioedd academaidd a phreswyl, ewch i'n gwefan www.stpadarns.ac.uk/cy/MAAstudiaethauCaplaniaeth neu cysylltwch â Tina Franklin, Cydlynydd Ôl-raddedigion. Mae croeso i ymholiadau anffurfiol.

## RHESTR DEUNYDDIAU DARLLEN AC ADNODDAU

Bydd union natur y deunydd darllen a awgrymir yn dibynnu ar arbenigeddau.

Mae seren (*) yn dynodi adnoddau y gallech fod am ystyried eu prynu neu ofyn i'ch cyflogwr eu stocio.

*Testunau cefndir anacademaidd*


Gawande, A. (2014). Being mortal: Illness, medicine, and what matters in the end. Efrog Newydd: Metropolitan Books.

Kay, A. (2017). This is going to hurt: Secret diaries of a junior doctor. Efrog Newydd: Little, Brown.

Watson, C. (2018). *The language of kindness: A nurse's story*. Llundain: Chatto & Windus.


*Testunau rhagarweiniol lefel Baglor*


Cobb, M. (2005). *The hospital chaplain's handbook: A guide for good practice*. Norwich: Canterbury Press.

Lartey, E. (2020) 'Back to the future: Intercultural, postcolonial and inter-religious streams in practical theology'. *Practical Theology*, 13 (1-2), tt. 150-161.

* Threlfall-Holmes, M. a Newitt, M. (2011). *Being a Chaplain*. Llundain: SPCK.

* Wells, S., Quash, B. ac Eklund, R. (2017) *Introducing Christian Ethics. Ail arg.* Rhydychen: Wiley-Blackwell.


*Testunau rhagarweiniol lefel Baglor uwch a lefel Meistr*


Gordon, T., Kelly, E., a Mitchell, D. (2010). *Spiritual Care for Healthcare Professionals: Reflecting on Clinical Practic*e. Llundain: Radcliffe Publishing.

Messer, N. (2002). *Theological Issues in Bioethics*. Llundain: Darton, Longman and Todd.

* Swift, C. (2014). H*ospital chaplaincy in the 21st century: The crisis of spiritual care in the NHS*. Ail Arg. Aldershot: Ashgate.

Beauchamp, T.L. a Childress, J.F. (2013) *Principles of biomedical ethics*. 7fed arg. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Benatar, S.R. (2021) *Global health: Ethical challenges*.  Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Brown, M. (2010) *Tensions in Christian ethics: An introduction*.  Llundain: SPCK.

Francis, L., Hancocks, G., Swift, C. a Robbins, M. (2009). 'Distinctive Call, Distinctive Profile: The Psychological Type Profile of Church of England Full-time Hospital Chaplains', *Practical Theology*, 2(2): 269-284.

Fraser, D. (2010). 'Pastoral Heart and Critical Mind: The Shaping of Chaplaincy in the NHS', *Practical Theology*, 3(2): 179-190.

Gill, R. (2006). *Healthcare and Christian ethics*. Cambridge: Cambridge University Press.

Kwan, S.S.-M. (2021) 'Is hospitality enough for Interfaith Spiritual Care by Christians?'. *Practical Theology*, 15 (3), tt. 206-218.

Matthews, P. (2018) Ethical questions in healthcare chaplaincy: Learning to make informed decisions.  Philadelphia: Jessica Kingsley.

Hancocks, G., Sherbourne, J. a Swift, C. (2008). 'Are they refugees?' Why Church of England male clergy enter healthcare chaplaincy. *Practical Theology*, 1(2): 163-179.

Mowat, H. (2005). *What do chaplains do? The role of the chaplain in meeting the spiritual needs of patients*. Aberdeen: Mowat Research.

Mowat, H. (2008). *The potential for efficacy of healthcare chaplaincy and spiritual care in the NHS (UK).* Aberdeen: Mowat Research.

Newitt, M. (2010). 'The Role and Skills of a Hospital Chaplain: Reflections Based on a Case Study'. *Practical Theology*, 3(2):163-177

Pattison, S. a Pill, R. (2004). *Values in professional practice: Lessons for health, social care and other professionals*. Llundain: Radcliffe Publishing.

Raffay, J. et al. (goln.) (2022). *Coproduction: Towards equality in mental healthcare*. Trefynwy: PCCS Books.

Trull, J.E., a Carter, J.E. (2004). *Ministerial ethics: Moral formation for church leaders.* Grand Rapids: Baker.

Youngblood, P.W. (2023) 'Chaplains as hosts: balancing humility and assertiveness in spiritual care'. *Practical Theology*, 16 (2), tt. 232-246.

*Gwefannau*

Coleg y Caplaniaid Gofal Iechyd https://www.healthcarechaplains.org/

Rhwydwaith Gofal Bugeiliol, Ysbrydol a Chrefyddol mewn Iechyd http://network-health.org.uk/

*Cyfnodolion*

*Health and Social Care Chaplaincy* https://journal.equinoxpub.com/HSCC/

*Practical Theology* https://www.tandfonline.com/journals/yprt20